CYNGOR RHONDDA CYNON TAF Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ddydd Mercher 19 Mehefin 2019 am 4.00pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy CF40 2XX.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd H Boggis
Y Cynghorydd J Bonetto	Y Cynghorydd S. Bradwick
Y Cynghorydd J. Brencher	Y Cynghorydd A Calvert
Y Cynghorydd G Caple	Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A Cox	Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J Cullwick	Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd J Davies	Y Cynghorydd M Diamond
Y Cynghorydd J Elliott	Y Cynghorydd M. Forey
Y Cynghorydd A Fox	Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd D Grehan	Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd J Harries	Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Hooper	Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd J James	Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd G Jones	Y Cynghorydd K Jones
Y Cynghorydd W Jones	Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd W Lewis	Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd D Macey	Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd K Morgan	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd D Owen-Jones
Y Cynghorydd W Owen	Y Cynghorydd S Pickering
Y Cynghorydd M Powell	Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S Rees	Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd J Rosser	Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd G Thomas	Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd R Turner	Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M Weaver	Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd T Williams	Y Cynghorydd C Williams
Y Cynghorydd R Yeo	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C. Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

22 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

23 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Belzak, D R Bevan, A Davies-Jones, S. Evans, M Fidler Jones, H Fychan, P Howe, G Hughes, D Macey, S Rees-Owen, E Stephens, M Tegg , E Webster a G Williams.

24 CYNLLUNIO ARIANNOL TYMOR CANOLIG - MATERION I'W HYSTYRIED YN Y DYFODOL

Derbyniodd yr aelodau y Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol y Cyngor. Rhoddodd bob un gyflwyniadau PowerPoint mewn perthynas â chynllunio ariannol tymor canolig, er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau cyn i'r gyllideb gael ei thrafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Dechreuodd y Cyfarwyddwr Adnoddau gyda chyflwyniad o'r enw 'Cynllunio Cyllideb a'r setliad Cyllid Llywodraeth Leol'. Eglurodd fod cynllunio ariannol tymor canolig yn rhoi ffocws ar wariant Refeniw a gwariant Cyfalaf yn ogystal â nodi Strategaeth Ariannol gyffredinol y Cyngor. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau wybod am y newidiadau o ran gwariant gwasanaeth ers 2009 a'r pwysau cronnol sy'n wynebu awdurdodau lleol, gan gynnwys pwysau penodol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a gofal cymdeithasol i oedolion. Rhoddwyd graff i'r Aelodau o Ddadansoddiad Cyllidol Cymru, Prifysgol Caerdydd, sy'n nodi'r rhagamcanion ar gyfer Cyllideb Llywodraeth Cymru hyd at 2023-2024. Daeth y Cyfarwyddwr â'i gyflwyniad i ben gan gyfeirio at grantiau penodol, lefelau Treth y Cyngor a throsolwg o fanylion am 'beth sy'n digwydd mewn mannau eraill' o ran ymateb i ddiffygion yn y gyllideb.

Yn dilyn y cyflwyniad, canolbwyntiodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol y Cyngor ar gynllunio ariannol tymor canolig ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Rhoddodd y Cyfarwyddwr gipolwg i'r Aelodau ar wariant Refeniw a Chyfalaf, Cyllid Llywodraeth Cymru a chynhyrchu incwm mewn perthynas â'r Gyllideb Refeniw cyn rhoi manylion mwy penodol ynghylch cynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor. Cafodd yr Aelodau wybod fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2022/23 yn cael ei ddiweddaru, ac y caiff ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Gorffennaf. Mae disgwyl gweld diffyg adnoddau yn erbyn ein gofynion cyllideb (bwlch yn y gyllideb) dros y tymor canolig o ystyried gostyngiadau parhaus gwirioneddol mewn cyllid mewn termau real. Cafodd dull y Cyngor o fynd i'r afael â hyn ei amlinellu ynghyd â manylion y llinell amser ar gyfer pennu cyllideb flynyddol y bydd yr aelodau'n cael cyfle i gyfrannu ati.

Ar ôl i'r cyflwyniadau ddod i ben, mynegodd yr Arweinydd ei ddiolch i'r Swyddogion a siaradodd am y pwysau sy'n wynebu'r Cyngor a'r ansicrwydd posibl ynghylch amser cyhoeddiadau cyllid llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2020/21 oherwydd yr oedi yn yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr i'w gyflawni gan Lywodraeth Ganolog y DU.
Gofynnodd un aelod am effaith Gostyngiadau Treth y Cyngor ar lefel treth y cyngor a gaiff ei godi, yn hytrach na'i gasglu, a'i effaith ar ein sefyllfa fel y Cyngor

sydd â'r pedwerydd Treth y Cyngor isaf fesul annedd yng Nghymru. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol y byddai'n darparu'r wybodaeth i'r Aelod.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn y cyflwyniadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.55pm

Y Cynghorydd S. Powderhill: Cadeirydd